# Y Planedau

Gad i ni gyfri'r planedau
a'u trefnu i gyd yn un rhes,
y rhai sy'n bellach na phellter,
a'r rhai sydd rywfaint yn nes.

Yn gyntaf daw'r blaned Mercher,
un fach a swil yw hi,
wedyn daw Gwener a'i harddwch,
ac yna, daw ein Daear ni.

Mae Mawrth yn gwrido'n gynnes
yn goch ac oren i gyd,
a nesaf mae Iau a'i lleuadau
yn gwmni i'w gilydd o hyd.

O gylch Sadwrn mae golau rhyfeddol
sy'n sgleinio fel modrwy dlos,
ac weithiau, os edrychi'n ofalus,
cei Wranws yn nirgelwch y nos.

Yn olaf ar ein rhestr ni heddiw
daw Neifion a'i gwynt a'i nwy,
a dyna ni wyth o'r planedau,
dim ond wyth – mae miliynau mwy!

Mererid Hopwood

